NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Sodiwm polysylffad pentosan ar gyfer trin syndrom poen y bledren

13 Tachwedd 2019

Mae sodiwm polysylffad pentosan (Elmiron) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer syndrom poen y bledren gyda glomerwliadau neu friwiau Hunner mewn oedolion y mae angen iddynt basio dŵr ar frys ac yn aml ac sydd â phoen cymedrol i ddifrifol, os yw'r canlynol yn gymwys:

- nid yw'r cyflwr wedi ymateb i driniaethau safonol a gymerir drwy'r geg
- nid yw'n cael ei gynnig gyda diferiadau ('instillations') ar gyfer y bledren
- ni roddwyd y gorau i unrhyw driniaeth flaenorol gyda diferiadau ar gyfer y bledren oherwydd diffyg ymateb
- caiff ei ddefnyddio mewn gofal eilaidd.

Os nad ydych yn gymwys i gael sodiwm polysylffad pentosan ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Rhwydwaith Cymorth Poen Pelfig, info@pelvicpain.org.uk
- Bladder Health UK, 0121 702 0820.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3586-4



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.